OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2325(Cy. 242)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol bod corff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg wedi i gais ysgrifenedig ddod i'w law oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, yn cyflenwi pa bynnag wybodaeth y gofynnir amdani gan yr awdurdod mewn cysylltiad â disgyblion yn yr ysgol.

Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2007, a Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny, yn rhagnodi'r wybodaeth y caniateir ei rhannu â phersonau a ragnodir o dan reoliad 5(2) o Reoliadau 2007. Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu paragraffau 17 ac 18 newydd at Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2007, a thrwy hynny'n ychwanegu at y rhestr ragnodedig o'r wybodaeth am ddisgyblion unigol y caniateir ei rhannu (rheoliadau 2(2) a 2(4)).

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn rhagnodi personau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddynt o dan adran 537A(4) o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod is-baragraffau (d) i (f) newydd yn rheoliad 5(2), a thrwy hynny'n ychwanegu at y rhestr ragnodedig o gyrff y caniateir darparu gwybodaeth iddynt am ddisgyblion unigol (rheoliad 2(3)).

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2325(Cy. 242)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011

*Gwnaed* *20 Medi 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *22 Medi 2011*

*Yn dod i rym* *14 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 14 Hydref 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44) ac fe’i hamnewidiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraff 153 a diwygiwyd is-adran 1(a)(i) ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

.

**Diwygio**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ar ôl y diffiniad o "cyfnod allweddol" yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "cylchlythyr iaith gyntaf" ("*first language circular*") yw'r cylchlythyr "Casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion"(**2**) a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y rhif cylchlythyr 001/2011;";

(b) ar ôl y diffiniad o "blwyddyn ysgol" mewnosoder—

"ystyr "cod iaith" ("*language code*") yw'r prif godau ac is-godau ar gyfer y categorïau iaith safonol a bennir yn Atodiad A i'r cylchlythyr iaith gyntaf;";

(c) ar ôl y diffiniad o "cyfnod allweddol" yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"mae i "cymhwyster perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant qualification" yn adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997;"; ac

(ch) ar ôl y diffiniad o "Rhif unigryw disgybl" mewnosoder —

"ystyr "rhif unigryw dysgwr" ("*unique learner number*"), mewn perthynas â disgybl cofrestredig mewn ysgol, yw'r cyfuniad penodol o lythrennau a rhifau a ddyrannwyd i'r disgybl gan Brif Weithredwr yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau fel rhif unigryw dysgwr y disgybl hwnnw;".

(3) Yn rheoliad 5—

(a) ar ddiwedd paragraff (2) mewnosoder—

"(d) yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau(**3**);

(dd) unrhyw gorff a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf Addysg 1997 mewn perthynas â dyfarnu neu ddilysu cymhwyster penodedig neu ddisgrifiad o gymhwyster perthnasol;

(e) y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau; ac

---

(**1**) S.I. 2007/3562 (Cy.312).
(**2**) Rhif ISBN 978 0 7504 5907 5.
(**3**) Asiantaeth yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yw'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau.

(f) unrhyw gorff a gydnabyddir gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau o dan adran 132 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 mewn perthynas â dyfarnu neu ddilysu cymhwyster penodedig neu ddisgrifiad o gymhwyster y mae Rhan 7 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo.".

(4) Yn Rhan 1 o Atodlen 2—

(a) ar ddiwedd paragraff 1(g) mewnosoder—

"(ng) y rhif unigryw dysgwr, os yw'n hysbys."; a

(b) ar ddiwedd paragraff 16 mewnosoder—

"**17.** Pan fo'r disgybl yn dysgu Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol, datganiad pa un a yw lefel datblygiad y disgybl hwnnw mewn Saesneg o fewn—

(a) categori A: newydd i'r Saesneg;

(b) categori B: caffael cynnar;

(c) categori C: datblygu cymhwysedd;

(ch) categori CH: cymwys; neu

(d) categori D: rhugl.

**18.** Y cod iaith sy'n disgrifio orau iaith gyntaf y disgybl.".

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Medi 2011